
Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llesiant Cymru: 2023

Adroddiad am y cynnydd y mae Cymru yn ei wneud tuag at wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddarllen o 'Llesiant Cymru: 2023. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru o ran cyflawni'r saith nod llesiant.

**Medi 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon




Mae hon yn ddogfen hawdd ei darllen. Ond efallai y byddwch chi'n dal i fod angen cymorth i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu.



Gall geiriau mewn **ysgrifen glas drwm** bod anodd i ddeall. Gallwch weld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei olygu ar dudalen 30.

Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
**www.photosymbols.com/**

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48262, ISBN digidol 978-1-83504-786-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:




Gwefan:
**Llesiant Cymru | LLYW.CYMRU**




E-bost: **desg.ystadegau@llyw.cymru**



Ffôn: 0300 025 1154

# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Sut rydyn ni'n mesur llesiant 7

1. Cymru lewyrchus 8
2. Cymru gydnerth 13
3. Cymru iachach 16
4. Cymru sy'n fwy cyfartal 19
5. Cymru o gymunedau cydlynus 22
6. Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynu 24
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang 26

Rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn 29

Geiriau anodd 30

# Cyflwyniad

Dyma'r 7ed tro i ni wneud un o'r adroddiadau hyn am **Lesiant Cymru**. Pan fyddwn ni'n dweud **llesiant**, rydyn ni'n golygu:



- **Llesiant economaidd** sy'n ymwneud â phethau fel cael swydd, rhedeg busnes a chael incwm.



- **Llesiant cymdeithasol** sy'n ymwneud â phethau fel ein cymuned a'n gwerthoedd.



- **Llesiant amgylcheddol** sy'n ymwneud â natur, tir, dŵr ac aer.



- Mae **llesiant diwylliannol** yn cynnwys pethau sy'n dod â ni at ein gilydd fel hanes, barddoniaeth a digwyddiadau fel yr Eisteddfod.




- A'ch **llesiant** chi hefyd.

Mae **llesiant** yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.




Rydyn ni'n ysgrifennu'r adroddiad hwn i ganfod a yw Cymru'n cyflawni'r 7 nod **llesiant ar gyfer Cymru**.




Mae'r nodau hyn wedi eu nodi yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**



Mae hon yn gyfraith sy’n awyddus i wneud Cymru’n lle gwell i chi fyw ynddo ac i bobl yn y dyfodol.



Mae gan y gyfraith **7 nod** a fydd yn helpu Cymru i ddod yn wlad fwy **cynaliadwy**.

Mae bod yn **gynaliadwy** yn golygu defnyddio’r pethau sydd eu hangen arnom i fyw ein bywydau ond gan wneud yn siŵr bod digon ar ôl o hyd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.




Mae’r rhain yn cael eu galw’n **nodau llesiant** am eu bod yn disgrifio’r pethau da rydyn ni eisiau eu gwneud.




Y **7 nod llesiant** ar gyfer Cymru yw:

1. Cymru lewyrchus.

2. Cymru gydnerth.

3. Cymru iachach.

4. Cymru sy'n fwy cyfartal.

5. Cymru o gymunedau cydlynus.

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.



7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

**Byddwn yn siarad mwy am y nodau hyn a'r hyn maen nhw'n ei olygu yn y ddogfen.**


# Sut rydyn ni'n mesur llesiant



I gael gwybod a yw Cymru'n gwneud cynnydd tuag at y **nodau llesiant**, rydyn ni'n casglu gwybodaeth a data.



Yna, caiff y **nodau llesiant** eu rhannu'n 50 nod llai. Rydyn ni'n galw rhain y **ddangosyddion cenedlaethol**.




Mae gennym hefyd nodau tymor hwy sy'n cael eu galw yn **gerrig milltir**. Mae'r rhain yn rhoi mwy o wybodaeth am faint o newid sydd ei angen ar gyfer pob nod. Maen nhw'n rhoi gwell syniad i ni o'r hyn rydyn ni'n ei wneud.



Mae gweddill y ddogfen yn sôn am yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni ar gyfer pob un o'r **nodau llesiant** yn y flwyddyn ddiwethaf.




## 1. Cymru Iewyrchus

**Pwrpas y nod llesiant hwn yw sicrhau bod Cymru'n gwneud yn dda fel gwlad drwy'r canlynol:**


- **Cael syniadau da.**
- **Gwneud pethau.**
- **Ystyried newid yn yr hinsawdd.**
- **Cefnogi pobl i gael addysg dda i'w helpu i gael swydd dda.**

## Yr hyn wnaethon ni ganfod:





- Mae'r rhyfel yn Wcráin a COVID-19 wedi cael effaith fawr ar yr **economi**.

Mae'r **economi'n** golygu faint o arian sydd gan wlad. Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â'r pethau rydyn ni'n eu gwneud a'u gwerthu. A faint o arian rydyn ni'n ei wario.



- Mae'r ddau wedi achosi i **chwyddiant** godi.


**Chwyddiant** yw pan fydd pris pethau'n codi a gall pobl brynu llai gyda'u harian.



- Mae hyn wedi cael effaith wael ar safonau byw ac wedi bod yn waeth i bobl nad ydynt yn ennill llawer o arian.



- Fe wnaethon ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Brexit yw'r enw ar hyn. Mae hyn wedi effeithio ar sut rydyn ni'n prynu ac yn gwerthu pethau gyda gwledydd yn Ewrop.



- Mae **economi'r** Deyrnas Unedig wedi tyfu'n araf ers 2008.
  Ac os bydden ni wedi tyfu'n gynt bydden ni wedi cynhyrchu mwy o nwyddau.




- Nid yw Cymru'n gwneud cystal â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.



- Ac mae Cymru'n cynhyrchu llai o eitemau na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn effeithio ar yr **economi**.



- Mae'r gwahaniaethau mewn cyflogaeth rhwng Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn llai nag yr oeddent yn arfer bod.



**Coronafeirws**
**COVID-19**

- Mae'n debyg bod y pandemig wedi effeithio ar economi Cymru mewn ffyrdd tebyg i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.




- Mae'r **bwlch cyflog rhwng y rhywiau** yn llawer llai nawr nag ugain mlynedd yn ôl.

Y **bwlch cyflog rhwng y rhywiau** yw'r gwahaniaeth cyfartalog rhwng yr hyn y mae dynion a menywod yn ei ennill.




- Mae mwy o bobl yn cael cymwysterau.



- Mae merched yn gwneud yn well na bechgyn mewn addysg.

# 2. Cymru gydnerth



**Mae'r nod hwn yn ymwneud â gofalu am yr amgylchedd a'i wella. Ond hefyd ynghylch sut rydyn ni'n helpu'r amgylchedd i ymdopi â newidiadau fel newid yn yr hinsawdd. Hefyd, newid pan fydd angen i ni newid mewn perthynas â'r amgylchedd.**



**Yr hyn wnaethon ni ganfod:**

- Mae Cymru'n defnyddio ei **hadnoddau naturiol** yn gyflym iawn.

Mae **adnoddau naturiol** yn bethau fel coedwigoedd, tir, pridd, aer, planhigion a bywyd gwyllt.



- Mae llawer o waith i'w wneud i amddiffyn pobl rhag risgiau yn yr amgylchedd. Er enghraifft, llifogydd.



- Mae **llygredd aer** wedi cynyddu ychydig ers yr adroddiad diwethaf, ond mae'n parhau i fod yn is na chyn y pandemig.


Mae **llygredd aer** yn cael ei achosi gan geir, trafnidiaeth arall, llosgi tanwydd i gynhesu ein cartrefi a phethau eraill.



- Mae **llygredd aer** yn risg i iechyd pobl.




- Mae faint o wastraff rydym wedi'i **ailgylchu** wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf



- Mae gan Gymru un o'r cyfraddau **ailgylchu** gorau yn y byd. Ond rydyn ni'n dal i ddefnyddio mwy o **adnoddau naturiol** nag y gallwn ei cyfnewid.




- Mae bron i 30% o'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn dod o **ynni adnewyddadwy**. Mae hyn yn golygu ynni sy'n dod o bethau fel ffermydd gwynt neu bŵer solar.



- Mae llai o **fioamrywiaeth** nag yr oedd yn arfer bod. Y rheswm am hyn yw bod llai o leoedd i anifeiliaid a phlanhigion fyw a thyfu.

**Bioamrywiaeth** yw'r holl wahanol fathau o fywyd sy'n cael ei weld mewn un ardal. Er enghraifft, planhigion ac anifeiliaid.



- Mae dŵr o ansawdd gwell nag yr oedd yn arfer bod. Mae hyn mewn moroedd, afonydd, nentydd ac ar y tir.

## 3. Cymru iachach




**Mae'r nod hwn yn ymwneud â'n hiechyd corfforol a meddyliol, a gwneud yn siŵr eu bod y gorau y gallant fod.**

**Ac amdanom ni'n deall sut mae'r dewisiadau rydyn ni'n eu gwneud yn effeithio ar ein hiechyd yn y dyfodol.**


**Yr hyn wnaethon ni ganfod:**



- Mae menywod yn tueddu i fyw yn hŷn na dynion.



- Ond mae dynion yn treulio mwy o'u bywyd mewn iechyd da na menywod.



- Roedd y nifer uchaf o farwolaethau yn y flwyddyn hyd yma o glefyd y galon.




- Mae canran y babis sy’n cael eu geni gyda phwysau geni isel wedi aros yn sefydlog.



- Mae babanod mamau hŷn yn fwy tebygol o gael eu bwydo ar y fron na rhai mamau iau.



- Mae tua 13 o bob 100 o bobl yn ysmygu.



- Mae tua 17 o bob 100 o bobl yn yfed mwy o alcohol nag sy’n iach.



- Mae tua 3 o bob 10 o bobl yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau.




- Mae ychydig dros hanner yr holl oedolion yn cael digon o ymarfer corff.



- Mae llawer o bobl yn poeni am eu hiechyd meddwl.




- Mae iechyd meddwl pobl iau yn waeth na phobl hŷn.

# 4. Cymru sy'n fwy cyfartal




**Mae'r nod hwn yn ymwneud â phawb yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial. Dim ots pwy ydyn nhw na beth yw eu cefndir.**

**Yr hyn wnaethon ni ganfod:**



- Mae'r rhai sy'n briod yn llai tebygol o fod mewn **amddifadedd materol** na'r rhai sydd wedi gwahanu neu wedi ysgaru.

Mae **amddifadedd materol** yn golygu peidio â gallu fforddio pethau penodol fel cadw'r tŷ'n ddigon cynnes, gwneud arbedion rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn.





- Roedd plant o rai grwpiau **lleiafrifoedd ethnig yn** tueddu i wneud yn well yn yr ysgol.



Mae **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn bobl sy'n dod o gefndir neu wlad wahanol i'r mwyafrif o bobl eraill mewn cymdeithas.



- Dywedodd bron i hanner y boblogaeth nad oes ganddynt grefydd.



- Mae hyn yn uwch nag unrhyw grefydd unigol.



- Mae ychydig o dros 2 o bob 100 o bobl yn dweud eu bod yn Fwslimaidd.



- Mae 3 o bob 100 o bobl yn dweud eu bod yn **hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol.**

Mae **hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol** yn golygu pwy rydych chi'n ei hoffi neu'n cael eich denu atynt. Er enghraifft, mae dynion hoyw yn hoffi dynion eraill. Mae menywod hoyw yn hoffi menywod eraill. Mae pobl ddeurywiol yn hoffi dynion a menywod.



- Mae pobl anabl yn llai tebygol o fod yn gwaith ac yn fwy tebygol o fod â llai o arian na phobl nad ydynt yn anabl.



- Os yn gweithio, mae pobl anabl yn fwy tebygol o ennill llai o arian ar gyfartaledd na'r rhai nad ydynt yn anabl.

# 5. Cymru o gymunedau cydlynus



**Mae'r nod hwn yn ymwneud â chael cymunedau deniadol a diogel sydd â chysylltiadau da.**

**Yr hyn wnaethon ni ganfod:**



- Mae ychydig dros 6 o bob 10 o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned. Ac yn cyd-dynnu'n dda gyda phobl yn eu cymuned.




- Mae 9 o bob 10 o bobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.



- Mae mwy o bobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal.



- Mae tua 3 o bob 10 oedolyn yn gwirfoddoli.



- Dangoswyd bod hyn yn gwella **llesiant**.



- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae mwy o droseddau wedi eu cofnodi gan yr heddlu, fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn profi trosedd.



- Mae nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd yn ddebyg i ynedd.

# 6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Mae'r nod hwn yw annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau. A defnyddio'r Gymraeg.**


**Yr hyn wnaethon ni ganfod:**




- Y math mwyaf poblogaidd o gelfyddydau yr oedd pobl yn ymwneud ag oedd ffilm.



- Mae llai o bobl yn ymweld amgueddfeydd na chyn y pandemig.




- Mae llai o bobl yn mynychu digwyddiadau celfyddydol na chyn y pandemig.




- Yn ôl y Cyfrifiad, canran y siaradwyr Cymraeg yw'r isaf a fu erioed.




- Mae llai o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon rheolaidd y tu allan i'r ysgol.




- Mae mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd eleni.

# 7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



**Mae'r nod hwn yn ymwneud â sut mae'r pethau rydyn ni'n eu gwneud yng Nghymru yn effeithio ar y byd.**

**Yr hyn wnaethon ni ganfod:**




- Rydyn ni'n gwneud gwelliannau i leihau nwyon tŷ gwydr. Dyma'r mathau o nwyon sy'n niweidio'r amgylchedd.



- Fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn achosi baich enfawr, fel gwlad, ar ein planed.



- Mae tua 7 o bob 10 oedolyn yn poeni am newid yn yr hinsawdd.



- Daw'r ffynhonnell fwyaf o nwyon tŷ gwydr o'r sector cyflenwi ynni. Mae hyn yn bennaf o orsafoedd pŵer nwy.




- Mae mwy o bobl wedi cael eu cyfeirio fel dioddefwyr **caethwasiaeth fodern**.

**Caethwasiaeth fodern** yw pan fydd pobl yn cael eu gorfodi i weithio yn erbyn eu hewyllys. Yn aml heb gyflog. Efallai y byddant hefyd yn cael eu gorfodi i fyw heb ryddid.



- Ond efallai fod rhywfaint o'r cynnydd hwn yn deillio adrodd gwell.



- Mae'r nifer sy'n cael eu brechu ymhlith plant ifanc yn parhau i fod yn uchel ond gwelwyd gostyngiadau yn y nifer a gafodd eu derbyn yn 2022/23.





- Mae rhai oedolion yng Nghymru yn wynebu tlodi bwyd ac yn poeni am fforddio bwyd.

# Rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn




Mae'r adroddiad hwn am **lesiant** Cymru yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn.




Mae'n cael ei gynhyrchu oherwydd cyfraith o'r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Caiff yr adroddiad eu gwneud drwy edrych ar nifer o adroddiadau, arolygon ac ymchwil gwahanol sy'n dweud mwy wrthym am lesiant Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r adroddiad wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.




Mae fersiwn llawn yr adroddiad hwn ar gael ar-lein yn: **www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2021-html**

# Geiriau anodd

**Llygredd aer**
Mae hyn yn llygredd sy'n cael ei achosi gan geir, trafnidiaeth arall, llosgi tanwydd i gynhesu ein cartrefi a phethau eraill.

**Bioamrywiaeth**
Bioamrywiaeth yw'r holl wahanol fathau o fywyd sy'n cael ei weld mewn un ardal. Er enghraifft, planhigion ac anifeiliaid.

**Cynhwysiant digidol**
Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu mynd ar y rhyngrwyd a chyfrifiaduron yn rhwydd.

**Yr Economi**
Mae hyn yn golygu faint o arian sydd gan wlad. Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â'r pethau rydyn ni'n eu gwneud a'u gwerthu. A faint o arian rydyn ni'n ei wario.

**Chwyddiant**
Chwyddiant yw pan fydd pris pethau'n codi a gall pobl brynu llai gyda'u harian.

### Hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol
Mae'r rhain yn golygu pwy rydych chi'n ei hoffi neu'n cael eich denu atynt. Er enghraifft, mae dynion hoyw yn hoffi dynion eraill. Mae menywod hoyw yn hoffi menywod eraill. Mae pobl ddeurywiol yn hoffi dynion a menywod.

### Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth cyfartalog rhwng yr hyn y mae dynion a menywod yn ei ennill.

### Amddifadedd materol
Mae amddifadedd materol yn golygu peidio â gallu fforddio pethau penodol fel cadw'r tŷ 'n ddigon cynnes, gwneud arbedion rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn.

### Caethwasiaeth fodern
Caethwasiaeth fodern yw pan fydd pobl yn cael eu gorfodi i weithio yn erbyn eu hewyllys. Yn aml heb gyflog. Efallai y byddant hefyd yn cael eu gorfodi i fyw heb ryddid.

### Adnoddau naturiol
Mae'r rhain yn bethau fel coedwigoedd, tir, pridd, aer, planhigion a bywyd gwyllt.

### Ailgylchu
Ailgylchu yw pan fyddwn yn troi ein sbwriel i mewn i rywbeth y gallwn ei ddefnyddio eto.

### Llesiant (person)
Mae llesiant yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.

### Llesiant
Mae llesiant yn cynnwys cyflwr ein heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n diwylliant.